Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Adroddiad Blynyddol
Y Corff Llywodraethol
2014 - 15

Rhagoriaeth yw nod Plasmawr.
Gwneir hyn drwy gynnal cymuned flaengar
sy'n seiliedig ar barch;
sy'n Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant;
sy'n ddisgybledig ei hymarweddiad;
sy'n eangfrydig ei gorwelion;
sy'n meithrin sgiliau ei dysgwyr ac
sy'n rhoi gwerth cyfartal ar bob aelod ohoni.

Mair Parry-Jones, Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Annwyl Riant/Warcheidwad

Ysgrifennaf atoch ar ddiwedd blwyddyn digon heriol yn hanes yr ysgol. Roedd casgliadau ymweliad Estyn ar ddiwedd mis Medi 2014 yn siomedig ond ers hynny mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i bob un o'r wyth argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad. Mae'r her gyllidol yn gwynebu pob ysgol fel pob gwasanaeth gyhoeddus arall ac mae'r Pennaeth a'i gydweithwyr yn gwneud pob dim posib i leihau effaith y toriadau ariannol blynyddol ar gymuned yr ysgol.

Mae'n bleser adrodd bod canlyniadau TGAU yr ysgol yn parhau i gynyddu yn enwedig ar y mesur trothwy L2+ a chanlyniadau 2015 y gorau yn hanes yr ysgol. Mae perfformiad disgyblion Safon Uwch yr ysgol yn rhagorol ac am y drydedd flwyddyn yn olynol graddau A* - C yr ysgol yw'r gorau ymhysg holl ysgolion uwchradd Caerdydd.

Mae gweddill yr adroddiad yn cynnwys llu o lwyddiannau a rhagoriaethau sydd yn tystio i'r ffaith bod yna fwy i ysgol lwyddiannus na pherfformiad academaidd. Hoffwn ddiolch i holl staff yr ysgol am gynnig cyfoeth o weithgareddau allgyrsiol a theithiau sydd yn ymestyn profiadau disgyblion, yn ehangu eu gorwelion, ac yn datblygu sgiliau bywyd ehangach o fewn cyd-destun Cymreig a Chymraeg.

Roedd derbyn enwebiad ar gyfer gwobr Dewi Sant yn uchafbwynt amlwg o fewn y flwyddyn a aeth heibio ac yn gydnabyddiaeth o holl ymdrechion grŵp 'Digon' i leihau ac atal bwlian homoffobaidd yng nghymuned yr ysgol. Cydnabyddiaeth pellach o agenda cynhwysiant a ymwybyddiaeth o faterion byd eang yr ysgol oedd etholiad George Watts a Emily Pemberton yn Lysgenhadon Ifanc 2015 Action Aid. Cafodd y ddau brofiadau anhygoel yn ystod y flwyddyn yn hyrwyddo'r ymgyrch rhyngwladol 'Send my friend to school' gan gynnwys taith i Ghana a buont yn lysgenhadon gwych dros yr ysgol wrth gael eu cyfweld gan gyfryngau lleol a Chenedlaethol.

Mae arwain ysgol yn yr oes bresennol o atebolrwydd a thoriadau ariannol llym yn dipyn o her, ond rwy'n ffyddiog bod yr arweinyddiaeth strategol a ddarparwyd gan y Pennaeth â'i Dîm Arwain yn medru parhau i oresgyn yr heriau hyn.

Er gwaethaf yr heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu rwyf yn hyderus fod yr ysgol yn parhau'n ffyddlon i'w hamcan craidd gwreiddiol o osod gwerth cyfartal ar bob unigolyn. Mae ysgol lwyddiannus yn seiliedig ar berthynas adeiladol a chadarnhaol a gaiff ei ffurfio rhwng staff, disgyblion a rhieni, ac mae'r cydweithrediad hwn wedi bod yn nodwedd o Ysgol Plasmawr ers iddi gael ei sefydlu.

Mae'r Pennaeth a minnau yn benderfynol o sicrhau bod yr ysgol yn parhau i ddatblygu dros y blynyddoedd nesaf. Byddwn yn **anelu am ragoriaeth** ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn gweithredu'n ddiflino i gyrraedd y nod hwnnw.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Corff Llywodraethol am eu ymroddiad, gwrthrychedd a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

Mair Parry-Jones
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Cyflwyniad gan John Hayes, Pennaeth.

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i Mair Parry-Jones am ei chefnogaeth i mi yn bersonol fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol, a diolch iddi am ei arweinyddiaeth medrus o'r Corff Llywodraethol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o'r rhai mwyaf heriol yn hanes yr ysgol. Ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd nôl yn mis Medi 2014 fe gawsom yr alwad gan Estyn i'n hysbysu y byddai'r ysgol yn cael arolwg llawn ymhen pedair wythnos o dan y trefniadau arolygu newydd. Fe allwn ymfalchio yn y ffaith bod yr arolygwyr wedi adnabod cymaint o gryfderau am yr ysgol gan gynnwys rhagoriaethau sy'n arwain y sector, er hynny siomedig oedd deilliannau terfynol yr adroddiad sy'n golygu eu bod yn parhau i fonitro'r ysgol. Mae'r gyllideb ar gyfer yr ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn heriol iawn yn sgil toriadau canolog ac wedi ein gorfodi i wneud penderfyniadau anodd yn nhermau staffio a'r cwricwlwm. Y mae'r modd y mae cymuned yr ysgol wedi ymateb mor gadarnhaol i'r ddau agwedd yma o fywyd yr ysgol wedi fy mhlesio'n fawr ac wedi profi bod gan yr ysgol seiliau cadarn. Yng nghanol stormydd y flwyddyn a aeth heibio rwy'n falch ac yn ddiolchgar bod yr ysgol wedi aros yn gadarn ac yn driw i'w egwyddorion creiddiol.

Arolwg Estyn, Medi 2014

Mae'r adroddiad yn adnabod llu o gryfderau'r ysgol ac rwy'n hynod falch o'r sylwadau cadarnhaol am berfformiad disgyblion yn y chweched dosbarth, yr addysgu effeithiol mewn llawer o'r gwersi, ethos cryf yr ysgol sydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a goddefgarwch, ymddygiad a phresenoldeb da a llwyddiant yr ysgol wrth hyrwyddo defnydd y Gymraeg ymhlith y disgyblion, ynghyd ag ymrwymiad yr ysgol tuag at sicrhau lles ein disgyblion. Mae pob un o'r agweddau hyn yn elfennau pwysig sy'n greiddiol i'r ysgol.

Mae'r farn 'digonol' am berfformiad presennol yr ysgol yn siomedig ac wedi ei seilio yn bennaf ar berfformiad yr ysgol yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4) o'i gymharu ag ysgolion 'tebyg' o ran ffigwr % Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) yr ysgol. Mae'r grŵp yma o ysgolion 'tebyg' yn cynnwys 56 o ysgolion yng Nghymru sydd a % PYDd o lai na 10%. O'r ysgolion hyn Plasmawr sydd â'r ganran uchaf o ddisgyblion yn byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (22%). Mae'r mwyafrif helaeth o'r ysgolion sydd yn ein grŵp meincnod cenedlaethol â llai na 5% o'u teuluoedd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig sydd yn ein gosod ni mewn sefyllfa unigryw, sef canran PYDd isel ond canran uchel o deuluoedd yn byw mewn ardaloedd difreintiedig. Credaf fod cymharu ein perfformiad academaidd gyda'r ysgolion 'tebyg' eraill hyn, nifer fawr ohonynt yn gwasanaethu dalgylchoedd llawer mwy breintiedig a llai amrywiol na Phlasmawr, wedi cyfrif yn ein herbyn o dan y fframwaith arolygu bresennol.

Er mawr siom i ni ychydig o sylw a roddwyd yn yr Arolwg i berfformiad ein disgyblion o gymharu ag ysgolion ein 'teulu' (10 ysgol uwchradd arall sy'n rhannu nodweddion tebyg i ni). Mae perfformiad academaidd ein disgyblion yn CA3 a CA4 yn gyson uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion ein teulu, ysgolion dinas Caerdydd ac yn genedlaethol.

Prin yw'r sylw a roddir yn adroddiad Estyn i berfformiad ein myfyrwyr Safon Uwch a'r ffaith ein bod wedi perfformio yn well na phob ysgol arall yng Nghaerdydd yn 2013 a 2014. Perfformiad

arbennig ein myfyrwyr Safon Uwch a TGAU oedd yn gyfrifol am osod yr ysgol ar frig Ysgolion Cyfun Cymru yn adolygiad y Sunday Times o ysgolion gorau Ynysoedd Prydain (Tachwedd 23, 2014). Rwy'n hynod falch o gyfraniad allweddol staff a disgyblion yr ysgol i'r llwyddiant arbennig hwn.

Rydym wedi cychwyn ar y gwaith o ymateb i bob un o'r argymhellion a welir yn adroddiad Estyn ac fe fydd canlyniadau arholiadau haf 2015 yn rhan allweddol o'n hymateb i Estyn. Amser a ddengys a fydd y cynnydd o 6% yn ein trothwy L2+ yn ddigon i'n codi uwchben y canolrif yn y meincnodi cenedlaethol yn ôl PYDd.

Rhagoriaeth yw nod Plasmawr ac rwy'n benderfynol o sicrhau bod arolygwyr Estyn yn cydnabod hynny pan fyddant yn ail-ymweld â'r ysgol ymhen 12 - 18 mis er mwyn monitro cynnydd yr ysgol yn erbyn yr argymhellion.

Canlyniadau arholiadau ardderchog (gweler manylion pellach yn Atodiad A)

'Roedd canlyniadau arholiadau allanol yr Ysgol yn arbennig o dda eto eleni (haf 2015). Llongyfarchiadau i'n holl fyfyrwyr am eu holl ymroddiad, penderfyniad a'u dyfalbarhad.

TGAU 2015:

'Roedd canlyniadau TGAU yn dda iawn gyda 82% o ddisgyblion yn cyrraedd y trothwy o 5 TGAU neu fwy rhwng gradd A* a C, neu'n gyfartal â hynny a 73.2% o ddisgyblion wedi cyrraedd y trothwy gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg. Dyma'r perfformiad orau yn hanes yr Ysgol. Llwyddodd 98% o ddisgyblion gyrraedd y trothwy lefel 1 o 5 TGAU neu fwy rhwng gradd A* a G neu'n gyfartal â hynny.

Safon Uwch 2015:

'Roedd ein canlyniadau Safon Uwch yn rhagorol gyda 37% o'r holl raddau yn A* - A, 88% o'r graddau rhwng A* a C, a 100% ohonynt rhwng A* ac E. Am y drydydd flwyddyn yn olynol mae canlyniadau Safon Uwch yr ysgol gyda'r gorau ymhysg holl ysgolion uwchradd Caerdydd. Llwyddodd pob myfyriwr oedd wedi gwneud cais am le mewn prifysgol i fynd ymlaen i addysg uwch, hanner ohonynt i Brifysgolion y Russell Group, a dymunwn bob llwyddiant iddynt ar ddechrau pennod newydd o'u bywydau.

Uwch Gyfrannol 2015:

'Roedd ein canlyniadau UG hefyd yn dda iawn, gan gynnig sylfaen gadarn i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr wrth iddynt ddechrau ar eu blwyddyn olaf yn yr ysgol.

Profiadau Dysgu

Mae adroddiad Estyn (Rhagfyr 2014) yn nodi'r canlynol am y profiadau dysgu a gynigir yn yr ysgol:

"Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn cyfarfod â gofynion statudol a bodloni diddordebau a dyheadau'r disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 3, ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ac ehangu eu profiadau dysgu drwy astudio ail iaith fodern ym Mlwyddyn 9. Yng nghyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol sydd yn cwrdd â dymuniadau'r disgyblion a chyflogwyr lleol er enghraifft cwrs gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ysgol yn darparu cyfloedd gwerthfawr iawn i ddisgyblion sydd mewn peryg o ddieithrio. Mae'r ysgol yn cynnig arlwy helaeth ac ysgogol o weithgareddau i'r disgyblion tu

allan i oriau ysgol. Cydweithia'r ysgol yn gynhyrchiol ag ystod o fusnesau lleol er mwyn sicrhau addysg gysylltiedig â gwaith buddiol i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd ar draws y pynciau'n gynhwysfawr ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n briodol. Drwy ystod o ymyraethau addas, cefnoga'r ysgol y disgyblion gyda medrau gwan yn llwyddiannus. Mae strategaethau pontio'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn arwain at drosglwyddiad cwricwlaidd esmwyth.
Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm llawn drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnig ystod o gyfleoedd dychmygus i sicrhau bod medrau ieithyddol y Gymraeg, ac ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant a hanes ein gwlad yn ffynnu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth yn gref ac yn cael ei hatgyfnerthu drwy y cysylltiadau gwerthfawr gyda Lesotho a Japan a thrwy waith y grŵp 'Glôb'. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer materion yn ymwneud â chynaladwyedd yn datblygu'n briodol gyda chymorth egnïol y grŵp Eco".

Cyngor yr Ysgol
'Roedd Cyngor yr Ysgol eleni'n cynnwys 23 o ddisgyblion, ac maent oll wedi cyfrannu'n dda at drafodaethau ynglŷn â llu o faterion sy'n ymwneud â'r ysgol. Cyfarfu Cyngor yr Ysgol yn rheolaidd gydol y flwyddyn a thrafodwyd materion yn perthyn i dwf yr ysgol, strategaethau dysgu ac addysgu gan gynnwys nodweddion y 'wers rhagorol', materion cynhwysiad cymdeithasol a Chymreictod. Cynrychiolwyd y Cyngor ar Fwrdd y Llywodraethwyr gan Bedwyr ap Ion a Ela Pari-Huws (Blwyddyn 13). Yr aelodau eraill o gyngor yr ysgol oedd: Manon Hammond a Charlie Borjas (Bl 7), Tomos Decaux a Medi Jones (Bl 8), Alys Evans a Jordan Leachman (Bl 9), Lottie Morris a Cadi Vaughan Roberts (Bl 10), Maia Davies a Daniel Williams (Bl 11), Saran Freeman (Bl 12), Olivia Murphy (Llyfrgellydd ifanc), Elisa Morris (Digon), Mirain Dafydd a Emily Pemberton (Glob) a Aleena Khan (Balch).

Y Chweched Dosbarth
Mae cyfraniad myfyrwyr Chweched Dosbarth at bob agwedd o waith Ysgol yn amhrisiadwy ac yn cynnig dimensiwn gwerthfawr ychwanegol i fywyd Ysgol. Mae'r Chweched Dosbarth eleni wedi bod yn weithgar tu hwnt ac wedi arwain nifer o gynlluniau pwysig o fewn yr Ysgol gan gynnwys 'Clwb P6/7' ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7. Clwb wedi ei arwain yn gyfangwbl gan fyfyrwyr Chweched Dosbarth yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol llawn hwyl yw hwn yn cwrdd unwaith y mis ar ddiwedd y dydd. Mae tystiolaeth o flaengaredd y Chweched i'w weld yn gyson drwy'r Ysgol gan gynnwys hyfforddi disgyblion a mentora disgyblion iau gyda'u gwaith Ysgol neu gyda materion mwy cymdeithasol a phersonol. Bu'r Chweched yn weithgar wrth gefnogi amrywiaeth o elusennau yn ystod y flwyddyn a chefnogwyd amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys y ddrama 'Arturo Ui' gan Brecht, y gyngerdd Nadolig a ystod o timau chwaraeon.
Hoffwn dalu teyrnged arbennig i brif fachgen, Bedwyr ab Ion a phrif ferch, Ela Parri-Huws yr Ysgol eleni. Maent wedi bod yn lysgenhadon gwych i'r Ysgol ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn ac wedi cynrychioli disgyblion yr Ysgol gydag urddas ar y Corff Llywodraethol llawn. Hoffwn longyfarch Bedwyr ab Ion a Emily Williams am gael eu derbyn i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen yn mis Medi. Fe fydd Bedwyr yn astudio Cemeg a Emily yn astudio Ffrangeg a Sbaeneg. Llongyfarchiadau mawr i Aron Mon ar dderbyn Ysgoloriaeth i astudio ym mhrifysgol Aberystwyth ac i Bronwen Anderson, Paige Churcher a Niamh McCarthy ar dderbyn ysgoloriaethau cymhelliant o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datblygiad Arweinyddiaeth
Mae ein cynlluniau mentora cyfoedion ac arweinyddiaeth y parhau i ddatblygu a ffynnu, ac mae ysgolion eraill ac asiantaethau allanol yn aml yn gofyn i ni rannu ein gweledigaeth gyda hwy. Mae pob un o'r cynlluniau mentora ac arweinyddiaeth 'rydym yn eu cynnig wedi ymrywmo i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau a rhinweddau arweinyddiaeth eu hunain. Mae'r mentoriaid cyfoedion yn derbyn lefel uchel o hyfforddiant gan Karen Evans (cwnselydd yr ysgol) cyn iddynt dechrau ar eu gwaith. Mae ein Mentoriaid Cyfoedion Academaidd yn cynorthwyo gyda'r clwb gwaith-cartref (MAP's), mae'r Mentoriaid Gwrth-Fwlio (CCC's) ar gael amser egwyl ac amser cinio i wrando ar bryderon eraill ac mae gennym dîm o wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo gyda'n cynlluniau darllen (DIP's). Mae 'Merched Mentrus' a 'Bechgyn Bonheddig' yn grwpiau cyfoedion sydd â'r nod o wella hunan-barch disgyblion na fyddent fel arall o bosibl yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau eraill a ddarperir gan yr ysgol.

Bu'n dipyn o flwyddyn i 'Digon' y grwp o fentoriaid ifanc sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth ynglŷn â bwlio homoffobig mewn cymdeithas a dileu pob math o fwlio homoffobig yn yr ysgol. Bu gwaith 'Digon' yn ganolbwynt i gyfranid yr Ysgol at gynhadledd gwrth fwlian Caerdydd (Hydref 2014) a rhaglen Hacio S4C (Tachwedd 2014). Yn sgil gwaith rhagorol Digon y daeth y Gweinidog Addysg, Huw Lewis i'r ysgol (Hydref 2014) i lawnsio yr wythnos gwrth-fwlian Cenedlaethol. Ar Hydref 27, 2014 fe ddaeth Sir Ian McKellan i'r ysgol i gwrdd a aelodau 'Digon' a'u canmol am eu gwaith o daclo bwlian homoffobaidd yn yr ysgol a thu hwnt. Fe gafodd y gynulleidfa ei gwefreiddio cyn iddo adael gan ei berfformiad o un o areithiau Shakespeare allan o lyfr 'Thomas Moore'. Penllanw dwy flynedd o ymgyrchu llwyddiannus oedd derbyn yr anrhydedd aruthrol o dderbyn enwebiad ar gyfer un o wobrau Dewi Sant. Cyhoeddwyd yr enwebiadau gan Mr Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru ac roedd hyn yn gydnabyddiaeth cyhoeddus aruthrol o waith arloesol a phwysig y grwp, Digon. Mae 'Stonewall' bellach wedi enwebu'r ysgol yn bencampwyr cynhwysiant sydd yn anrhydedd pellach.

Mae'r cyfraniad a wnaethpwyd gan yr arweinwyr disgyblion hyn i gynnal ein hegwyddor gefnogol yn werthfawr tu hwnt a diolchaf iddynt am eu gwaith caled a'u hymroddiad.

Anrhydedd aruthrol arall i'r ysgol eleni oedd bod George Watts a Emily Pemberton, disgyblion Blwyddyn 10 ac aelodau blaenllaw o'r grwp 'Glob' (grwp sydd yn gyfrifol am ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol yn enwedig ein cyswllt gyda Lesotho) wedi eu dewis i fod yn Lysgenhadon Ifanc y Deyrnas Unedig am 2015 am ennill gwobr 'Steve Sinnott'. Gwobr Cendlaethol blynyddol yw hwn a roddir i ysgolion a disgyblion sydd wedi gwneud cyfraniad

aruthrol i ddinasyddiaeth byd-eang. Fel rhan o'r wobr fe deithiodd Emily a George i Ghana yn Pasg 2015 i weld projectau elusennol Action Aid ar waith. Mae'r ddau wedi derbyn cyhoeddusrwydd aruthrol am eu gwaith gan gynnwys traddodi araith yng nghynhadledd yr NUT yn Harrowgate. Profiad anhygoel i'r ddau ohonynt ac rydym yn falch iawn o'u llwyddiant.

Gweithgareddau Allgyrsiol

Gwneir ymdrech anhygoel bob blwyddyn i gynnig amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol, a bu llynedd yn flwyddyn eithriadol o brysur arall. 'Rwyf yn ddyledus i'r aelodau staff hynny sy'n fodlon cynnig y gweithgareddau hyn ac 'rwyf yn falch iawn o'r ymateb aruthrol gan ddisgyblion i'r gweithgareddau. Pan fo disgyblion y gorffennol yn adlewyrchu ar eu profiadau yn yr ysgol, yn aml iawn, y profiadau allgyrsiol sydd ar ben y rhestr.

Trefnwyd sawl taith breswyl ar gyfer ystod eang o ddisgyblion, gan gynnwys Llangrannog (Blwyddyn 7), Tŷ-Ddewi (Blwyddyn 8), Taith Blwyddyn 9 yr adran Hanes i'r Ffrynt Orllewinol yng Ngwlad Belg, taith Blwyddyn 9 Addysg Grefyddol i Amsterdam, a'r daith sgïo flynyddol. Fe aeth yr adran Gelf a Thechnoleg a disgyblion i Milan a Venice (Hydref 2014) tra ar yr un pryd roedd yr adran Hanes yn arwain criw o ddisgyblion CA4 a CA5 yr ysgol o gwmpas amgueddfeydd a chofebau Washington a Efrog Newydd. Trefnodd Mr Iwan Rowlands taith pêl droed i ddisgyblion Bl 8 a 9 i Sbaen yn ystod gwyliau'r Pasg, y tro cyntaf i ni gael taith o'i fath yn hanes yr ysgol. Mae'r daith cyfnewid gyda rhanbarth Sakai, Japan yn datblygu'n flynyddol gyda ymweliad llwyddiannus gan griw o ddisgyblion a staff o Japan yn ystod mis Mawrth a disgyblion o Plasmawr yn ymweld â Japan yn ystod mis Gorffennaf. Hoffwn ddiolch i Miss Emma Richards am drefnu ac arwain ein holl alldeithiau efydd a aur Dug Caeredin yn ystod y flwyddyn. Mae llu o ddisgyblion wedi elwa o fod yn rhan o'r cynllun yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ymhlith digwyddiadau cofiadwy'r flwyddyn 'roedd cystadleuthau canwr ifanc a cerddor ifanc y flwyddyn a'n cyngerdd Nadolig. Mared Gruffydd (Bl 7) enillodd cystadleuaeth canwr iau yr ysgol a Mabli Tudur eniloodd y gystadleuaeth hŷn. Fe gafodd Lily Conway wobr arbennig iawn sef y cyfle i recordio ehai o'i chaneuon yn stiwdio Acapela yn Pentyrch. Elinor Haf Roderick Lein yn chwarae'r ffidil oedd enillydd y gystadleuaeth cerddor iau, a Mared Browning (telyn) oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth hyn. Fe enillodd Branwen Thistlewood wobr arbennig y beirniaid am ei pherfformiad ar y corn ffrengig.

Llwyddiant ysgubol fu seremoniau Cadeirio a Choroni Eisteddfod Plasmawr eto eleni a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas ar ddiwedd tymor yr Hydref. Cafwyd teilyngdod ym mhob un o'r cystadlaethau. Yn sicr roedd safon y gwaith yn ardderchog gyda nifer o ymgeisiadau oedd yn deilwng am y tri safle ar y brig ymhob un o'r categoriau. Hoffem ddiolch yn fawr i'r holl ymgeiswyr am roi min ar bensil neu fys ar allweddell i gyfansoddi eu gwaith. Enillydd y Gadair Gymraeg hŷn Rhys Williams oedd ac enillydd y Gadair Gymraeg iau oedd Gwenllian Evans. Tom Wilshaw ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth y Goron Saesneg hŷn a Daniel Howes enillodd y Goron Saesneg iau.

Llongyfarchiadau gwresog i bawb a gynrychiolodd yr ysgol yn Eisteddfod Yr Urdd, yng Nghaerffili yn ystod hanner tymor y Sulgwyn, a diolch hefyd i bawb a alluogodd i'r disgyblion gystadlu gyda chymaint o safon ac urddas wrth arwain, threfnu a chefnogi. Fe llwyddodd y canlynol gyrraedd llwyfan y brifwyl eleni: 'Rocho' – band roc iau (1af), Daniel Jones – dawns werin unigol (1af am y 4ydd tro yn olynol!), parti bechgyn iau (3ydd), cân actol iau (3ydd),

Lleucu Parru – dawns werin unigol (3ydd), detholiad o ddrama gerdd (2il). Fe fu nifer fawr o'n disgyblion hefyd yn llwyddiannus wrth gynrychioli aelwyd Bro Taf – llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Yng ngystadleuthau Celf a Dylunio yr Eisteddfod fe enillodd Dyfan Lloyd Owen, Bl 7 fedal efydd am Ffotograffiaeth Ddigidol a Mabli Yoeman o Fl 8 fedal arian am ei gwaith Tecstiliau.

'Rydym yn falch iawn o lwyddiannau ein disgyblion fel unigolion a fel rhan o dimoedd eleni.

Mae'r disgyblion canlynol wedi bod yn cynrychioli academiau pêl droed eleni:

- Kieran Proctor a Jonah Griffiths (Dinas Caerdydd)
- Ioan Roberts (Casnewydd)
- Bradley Cotterill a Ben Cabango (Dinas Abertawe)

Rydym yn falch iawn o lwyddiant un o'n sêr pêl droed, Keiron Proctor (Bl 10). Cafodd Keiron i ddewis i garfan pêl droed Cymru (dan 16) eleni er iddo fod flwyddyn yn ifancach na gweddill y garfan ac enillodd gapiau yn erbyn Ffrainc mewn dwy gem gyfeillgar (Medi 2014) a bu'n rhan o'r tîm buddugol a gurodd Lloegr 1 – 0 ym Mangor (Hydref 2014) ac yn aelod o'r garfan a gurodd yr Alban (2 -0) a Gogledd Iwerddon (Tachwedd 2014). Yn mis Awst 2015 fe gafodd Keiron gap dan 17 oed i Gymru wrth chwarae yn erbyn Gwlad Groeg. Mae Keiron bellach wedi cael cwmni Ben Cabango (Bl 10) yng ngharfan Cymru dan 16. Enillodd Harri Collins gap dros Ysgolion Cymru dan 18 yn erbyn Awstralia. Llongyfarchiadau mawr i'r tro ohonynt.

Rhaid canmol Jay Jones (Bl 10) ar fod yn gapten ar tîm rygbi Ysgolion Caerdydd (dan 15 oed) eleni, y disgybl cyntaf o'r ysgol i dderbyn yr anrhydedd hyn. Fe gynrychiolodd y disgyblion canlynol carfan rygbi Ysgolion Caerdydd eleni a gyrhaeddodd rownd derfynol y 'Dewar Shield': Jay Jones, Dylan Rigby a Adam Conway.

Mae timau rygbi merched yr ysgol wedi profi tipyn o lwyddiant eleni a'r uchafbwynt heb os oedd y tîm dan 16 oed yn ennill cwpan Ysgolion Caerdydd yn mis Mehefin.

Cyrhaeddodd tîm rygbi Blwyddyn 8 garreg milltir nodedig eleni drwy chwarae pob un o ysgolion uwchradd Caerdydd, cyfanswm o 24 gem mewn tymor. Diolch arbennig i Mr Seimon Edwards am drefnu'r holl gemau.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol am gynrhychioli Caerdydd a'r Fro ym mhêl rwyd a hoci:

- Pêl Rwyd dan 16 - Carys Osborne a Catrin Lord
- Pêl Rwyd dan 18 - Ffion Roblin
- Hoci dan 16 - Nel Williams, Amber a Jess Jones
- Hoci dan 14 - Eliza Durnall a Elin Preest

Llongyfarchiadau mawr i dîm athletau merched dan 16 yr ysgol (Elen Evans, Carys Osborne, Catrin Lord, Eliza Durnell, Rhian Jones, Carys Bill, Cherish Thomas, Zoe Sims a Elin Glaves) am ennill cystadleuaeth athletau Caerdydd a'r Fro ac am ddod yn ail ym mhencampwriaethau athletau Cymru ac i dimau athletau yr ysgol am fod y bencampwyr athletau yr Urdd eleni.

Cafodd Catrin Lord, Elen Evans, Rhian Jones a Elen Glaves eu dewis i gynrychioli Caerdydd a'r Fro ym mhencampwriaethau Gemau Cymru – yr Urdd.

Nantalais oedd y llys buddugol yn ein mabolgampau blynyddol yn stadiwm Lecwydd. Diolch arbennig i Mrs Angharad Gubby am drefnu.

Cafodd grwp o ddisgyblion Bl 7 & 8 wythnos hynod o lwyddiannus ym maes gymnasteg. Enillodd Caitlin Boyle a Maisie Goman gystadleuaeth parau yr Urdd, cyn uno gyda Georgia Hancock i ennill cystadleuaeth y triawd. O fewn deuddydd, roeddent yn fuddugol gyda Theo Cabango, Adam Boyle a Dominic Jones yng nghystadleuaeth Llawr a Llofnaid Ysgolion Cymru, gyda'r merched a Dominic hefyd yn ennill y pedwarawd. Fe aethant ymlaen i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Prydain ym mis Mawrth.

Llongyfarchiadau mawr i Garmon ab Ion a Manon Jenkins am gael eu dewis i gynrychioli tîm rhwyfo Cymru dan 16 oed, y ddau ohonynt wedi cychwyn ei profiadau rhwyfo yng nghlwb rhwyfor'r ysgol dan arweinyddiaeth Ms Sian-Elin Griffith.

Mae gan George Deane (Bl 10) reswm da dros ddathlu eleni gan ei fod yn rhan o dîm Karate Prydain a wnaeth ennill pencampwriaethau'r byd yng Nghroeg yn ystod mis Mawrth. Llongyfarchiadau mawr iawn iddo.

Cafodd tîm siarad cyhoeddus yr adran Saesneg tipyn o lwyddiant eleni wrth ennill cystadleuaeth ddadlau 'Debating Matters' rhanbarth De Cymru a De-Orllewin Lloegr yn ystod mis Tachwedd. Fe gurodd y tîm (Dylan Jones (Bl 12), Heledd Wilshaw, Emily Williams a Siwan Evans (Bl 13) yr ysgolion canlynol: Howell's, Cardiff Sixth Form College a Coleg Filton, Bryste.

Enillodd 6 o ddisgyblion Blwyddyn 12 Plasmawr wobr arbenning y beirniaid yng nghystadleuaeth Her F1 a gynhaliwyd yn Abertawe yn ddiweddar. Y dasg oedd i gynllunio car F1 gan ddefnyddio meddalwedd cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur (CAD), a'i rasio yn erbyn ceir tebyg. Roedd hefyd yn ofynnol iddynt gyflyno adroddiad, gwneud cyflwyniad o flaen y beirniaid a chynnal arddangosfa o'r prosiect.
Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Principality am gefnogi'r prosiect.

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cynrychioli'r ysgol yn ystod y flwyddyn neu sydd wedi cyfranogi mewn rhai o'n digwyddiadau cyhoeddus – da iawn chi.

Arturo Ui
Llongyfarchiadau mawr i staff yr adran Ddrama am lwyfannu drama mor uchelgeisiol a heriol yn ystod mis Tachwedd a llongyfarchiadau enfawr i'r cast am lwyddo mor wych i berfformio y ddrama cystal.

Gwesteion ac ymwelwyr
'Rydym wedi croesawu nifer o westeion ac ymwelwyr i'r ysgol eleni. Mae'r rhain wedi cynnwys ymwelwyr o Ganada, Siapan, Sbaen a Llydaw. Mae Aelodau o'r Cynulliad yn ymwelwyr cyson â'r ysgol, ac maent yn gefnogol i'r Chweched Dosbarth gyda'u hastudiaethau ar gyfer y Bagloriaeth Cymreig; hefyd trefnwyd digwyddiad hyfforddi gyda'r Cynulliad Cenedlaethol. 'Roedd yn fraint i ni groesawu Gerald Davies (OBE) fel siaradwr gwadd yn ein seremoni wobrwyo flynyddol, fe anogodd y myfyrwyr i drysori eu Cymreictod wrth iddynt fyw eu bywydau ac i wneud y fwyaf o bob cyfle a ddaw i'w ffordd ac i beidio byth rhoi fyny ar gyrraedd ei uchelgais. Llongyfarchodd y disgyblion ar eu perfformiad rhagorol yn eu arholiadau haf ddiwethaf. Braint oedd croesawu y gwesteion canlynol i'r ysgol:

- Huw Lewis, AC - y Gweinidog Addysg. (Hydref 2014) – lawnsio wythnos gwrth-fwlian.
- Kevin Brennan, AS (Hydref 2014 a Mehefin 2015) – Dathlu ein cyswllt gyda Lesotho.
- Sir Ian McKellan (Hydref 2014) – Llongyfarch DIGON.

Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a Staff
Mae'r Ysgol yn ddyledus i'r gymdeithas rhieni ac athrawon a staff am drefnu gweithgareddau codi arian yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y cwisiau a'r ffair Nadolig. Mae pob ceiniog o'r ymgyrch codi arian yn mynd tuag at prynu adnoddau ar gyfer y ganolfan ddysgu a bysiau mini yr ysgol sydd yn elwa pob un disgybl.

Gwaith elusennol
Mae ymateb ein disgyblion i waith elusennol yn rhyfeddol ac eto eleni bu'r disgyblion yn casglu arian at elusennau drwy llu o wahanol ffyrdd. Datblygiad pwysig eleni oedd sefydlu Pwyllgor Elusennol dan ofal Sian Elin Griffith. Mae'r disgyblion sy'n aelodau'r pwyllgor wedi sicrhau fod casgliadau cyson yn digwydd yn ystod y flwyddyn i gefnogi elusesennau lleol, rhanbarthol a Chenedlaethol yn ogystal ac ymateb ar frys i drychinebau fel y ddaeargryn yn Nepal (Mai 2015). Rhaid canmol haelioni ein teuluoedd sydd wedi cyfrannu at gyfanswm o dros £7638.00 eleni. Aelodau'r Pwyllgor Elusennau: Elina Thompson-Jones, Mabli Yeoman, Kiran Sall, Megan Holland, Myfi Palfrey a Phoebe Devitt Jones.

Ysbyty Felindre	£3305.17
Apel y British Red Cross: Daeargryn Nepal	£898.53
British Heart Foundation	£142.18
Epilepsy Action	£139.27
Macmillan	£400
Tenovus	£400
National Deaf Children's Society	£204.43
Diwrnod Plant Mewn Angen	£920.96
Diwrnod trwynau coch	£389.46
Achub y Plant – siwmperi Nadoligaidd	£838.00

Heriau'r dyfodol
Bydd yr ysgol yn parhau i dyfu a datblygu dros y blynyddoedd nesaf a bydd yn wynebu sawl her newydd; dyma rai ohonynt:

Sefyllfa gyllidol heriol:
Mae'r modd y mae'r ysgol yn ymateb i gyfres o gyllidebau heriol yn nhermau cyllid, staffio a chwricwlwm yn hanfodol bwysig, ac yn ddibynol ar gefnogaeth yr Awdurdod Lleol. Fe fyddwn yn parhau i gydweithio gyda uwch swyddogion yr Awdurdod Lleol wrth geisio diogelu cyllideb teg i'r ysgol.

Mae **newid cymdeithasegol o fewn yr ysgol** yn parhau i amlygu ei hun. Nodweddir ein plant ieuengaf yn bennaf gan begynnu cymdeithasol - gyda chanran gynyddol yn dod o ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas. Mae gwaith y Swyddog Cefnogi Teuluoedd yn dangos bod canran uchel o'n teuluoedd yn deuluoedd tlodi gweithiol (Working Poverty). Bydd angen i ni atgyfnerthu ein **systemau cynhwysiant, cynhaliaeth a chefnogaeth** i ymdopi â'r disgyblion sy'n dod o deuluoedd bregus a difreintiedig. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i bawb yng nghymuned Plasmawr.

Mae **cynnal ein safonau uchel a sicrhau cynnydd parhaus** yn ymgyrch yr ydym wedi ymrwymo iddi, ond yn bwysiach fyth wrth i ni baratoi i groesawu arolygwyr Estyn yn ol atom fel rhan o'i gweithdrefnau monitro. Fe fydd y cydweithio agos a chyson rhwng aelodau'r Tim Arwain, Arweinwyr Pwnc a'r Arweinwyr Cynnydd yn parhau yn seiliedig ar her barhaus i wella safonau. Mae anelu at ragoriaeth yn ein dysgu a'n addysgu a'n asesu ar gyfer dysgu yn greiddiol i'n hymdrechion o gynnal safonau a sicrhau cynnydd. Mae'r profiadau dysgu ac asesu a gaiff ein disgyblion o fewn ein hadrannau yn sail i gynnydd academaidd. Mae'n hanfodol ein bod yn adfyfyrio yn rheolaidd ar ein gweithdrefnau ar lawr dosbarth gan sicrhau ein bod yn darparu yr addysg orau ymhob gwers ac yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae **newid sylweddol i'n darpariaeth addysgiadol yn flaenoriaeth.**
Mae'r pwyslais gynyddol ar ymwreiddio'r Fframwaith Genedlaethol Llythrennedd a Rhifedd, sefydlu y Fagloriaeth Cymreig mewn i gwricwlwm CA4 a chasgliadau adroddiad yr Athro Graham Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus' yn golygu ein bod yn gorfod parhau i feddwl am agweddau o'n cwricwlwm a phrofiadau addysgu a dysgu mewn ffyrdd newydd a blaengar. Anelwn i gynnig addasiadau hyblyg, doeth a blaengar i'n cwricwlwm wrth ymateb i flaenoriaethau addysg y Llywodraeth.

- Mae yno bwysedd cynyddol arnom i sicrhau fod pob disgybl yn cael digon o gyfleoedd i arfer y Gymraeg ym mhob elfen o fywyd yr ysgol. Bydd y Tîm Arwain yn gyfrifol am ddatblygu **strategaeth ysgol gyfan i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol**.

Crynodeb
'Rwyf yn eithriadol o falch o'r ysgol ac 'rwyf yn benderfynol o sicrhau ei bod yn parhau i ffynnu, datblygu a gwella dros y blynyddoedd nesaf. Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus ac am sefydlu partneriaeth mor gref gyda'r ysgol.

John Hayes, Pennaeth

Aelodaeth o'r Corff Llywodraethol – a dyddiadau ar gyfer ail-etholiad

Cymuned	Awdurdod Lleol	Rheini	Staff
Mrs Mair Parry-Jones 25/06/13 – 24/06/17	**Mr John Hayes** Pennaeth	**Mrs Gwenan Williams** 08/02/13 – 07/02/17	**Mrs Kathy James** 25/04/14 – 24/04/18
Ms Rebecca Leach 11/02/15 – 10/02/19	**Ms Ruth Parry** 17/09/14 - 16/09/18	**Dr Catrin Redknap** 02/12/11 – 01/12/15	**Mrs Karen Salter** 05/10/11 – 04/10/15
Mr Dan Roberts 05/12/14 - 04/12/18	**Mrs Catrin James** 30/01/15 – 29/01/19	**Mr Michael Jones** 24/02/12 – 23/02/16	**Mr Seimon Edwards** 25/04/14 – 24/04/18
Mr John Griffiths 05/12/14 - 04/12/18	**Y Parch. Evan Morgan** 17/09/14 – 16/09/18	**Mrs Sara Williams** 28/11/14 – 27/11/18	**Mr Edward Jones** Dirprwy Bennaeth
Mrs Cath Thomas 30/11/14 - 29/11/18	**Mr Huw Herbert** 26/09/12 – 25/09/16	**Mrs Melanie Thomas** 28/11/14 – 27/11/18	**Cynrychiolwyr disgyblion**
	Dr Arun Midha 26/09/12 – 25/09/16		**Bedwyr ab Ion** **Ela Pari-Huws**

Mr Hywel Jones fu Ymgynghorydd Her yr ysgol ar ran Consortiwm Canolbarth y De yn ystod 2014-15. Diolchwn iddo am ei gefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, a dymunwn yn dda iddo wrth iddo gychwyn yn ei swydd newydd gyda Estyn yn Medi 2015.

Y Clerc i'r Llywodraethwyr yw **Eve Smith** sy'n gweithio yn Neuadd y Sir. Os ydych eisiau cysylltu â hi, gallwch wneud hynny ar 029 20872 915.

Gellir cysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr drwy swyddfa'r ysgol.

DATA AR BRESENOLDEB YR YSGOL 2014-15

	Presenoldeb %	Absenoldeb wedi ei awdurdodi %	Absenoldeb heb ei awdurdodi %
Blwyddyn 7	96.7%	3.15%	0.15%
Blwyddyn 8	95.7%	2.54%	1.76%
Blwyddyn 9	95.4%	3.12%	1.47%
Blwyddyn 10	95.0%	2.84%	2.15%
Blwyddyn 11	93.1%	3.48%	3.41%
Ysgol (11 – 16 oed)	95.2%	2.84%	1.96%

HYFFORDDIANT MEWN SWYDD I ATHRAWON (HMS)

Mae'r cyllid a bennir yn flynyddol ar gyfer HMS bellach wedi ei neilltuo ar gyfer cynorthwyo athrawon yn y ddarpariaeth o'r 3 blaenoriaeth cenedlaethol, sef llythrennedd, rhifedd a chynnig cefnogaeth i ddisgyblion a all fod dan anfantais oherwydd tlodi ac amddifadedd. Mae'r nifer o ddiwrnodau HMS wedi gostwng i 5 mewn blwyddyn academaidd. Yn sgil y newidiadau hyn, bu rhaid i ni ddatblygu dulliau creadigol o hyfforddi staff yn fewnol.

Mae'r datblygiadau hyn wedi cynnwys rhannu un o'n diwrnodau HMS gyda'r staff o'r ysgolion cynradd hynny sy'n bwydo i mewn i Blasmawr ar thema 'Anelu am Ragoriaeth'; rhannwyd ail diwrnod HMS gyda phob ysgol uwchradd Gymraeg arall yn ne Cymru ar y thema o wella safonau ar Gam Allweddol 4 a Cham Allweddol 5. 'Roedd y tri diwrnod HMS oedd yn weddill yn ffocysu ar wahanol agweddau o gynllun gwella'r ysgol.
Un o datblygiadau cadarnhaol llynedd oedd parhad yng ngwaith y Cymuned Ddysgu Broffesiynol o fewn i'r ysgol, oedd yn cynnwys pob aelod o'r staff dysgu. 'Roedd y cymunedau hyn yn ffocysu ar ddatblygu agwedd benodol o gynllun gwella'r ysgol gydol y flwyddyn, a bu aelodau o bob cymuned yn adrodd yn ôl ar ganfyddiadau a chasgliadau eu cymunedau eu hunain yn ystod un o'r diwrnodau HMS ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.
Mae canran uchel o'n staff hefyd yn gweithio fel arholwyr gyda CBAC ac o'r herwydd, maent wedi bod yn rhan o gynllunio arholiadau TGAU a Lefel Uwch. 'Rydym yn ystyried hyn i fod yn ffordd arbennig o ddatblygu arbenigedd, a chyn belled â phosibl bydd yr ysgol yn cefnogi'r staff mewn datblygu'r math yma o waith. Mae'r ysgol hefyd wedi datblygu dull mewnol blaengar o ddatblygu staff drwy ganiatáu iddynt i fonitro ei gilydd yn dysgu; mae hyn y galluogi athrawon i adlewyrchu ar eu harferion, gan wella eu sgiliau dysgu ymhellach er budd y disgyblion. Mae'r ysgol yn parhau i gefnogi datblygiad proffesiynol Athrawon sydd Newydd Gymhwyso ac athrawon dan hyfforddiant a mae'r ddwy uwch fentor yn arwain y gwaith hwn.

GWEITHREDU'R POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau i gael proffil uchel o fewn i'r ysgol. Caiff y bloc cefnogaeth dysgu ei ddefnyddio'n effeithiol fel adnodd, ac mae'r tîm yn parhau i wneud gwaith ardderchog mewn cynnig cefnogaeth i ddisgyblion sydd ag amrediad eang o anghenion. Mae ymwybyddiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys Disgyblion Mwy Galluog a Dawnus, yn uchel ymhlith y staff, ac mae'r ysgol wedi cael llwyddiant gyda'r mentrau a gyflwynwyd. Mae yno gysylltiadau ardderchog gyda rhieni ac asiantaethau allanol; ffocws cryf ar gysylltiadau rhwng blwyddyn 6 a 7 sy'n cynnwys Fforwm Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol; cydweithrediad effeithiol gydag adrannau ac ymateb prydlon ac uniongyrchol i ganran uchel o ddisgyblion sydd ag **anawsterau darllen a sillafu** yn y naill iaith a'r llall a sgiliau wedi eu gohirio mewn rhifedd.

Yn 2014-15 cynhaliwyd nifer o ymyraethau llythrennedd a rhifedd er mwyn gwella sgiliau disgyblion a oedd angen dal i fyny a'u cyfoedion. Adnabuwyd y disgyblion hyn trwy ddata profion llythrennedd a rhifedd safonedig cenedlaethol. Gweithredwyd yr ymyraethau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Bl7: Cynllun Darllen Cartref Saesneg
- Bl7: Cynllun Darllen Cymraeg (partneriaid bl12)
- Bl7: Cynllun Rhifedd (partneriaid bl9 a 12)
- Bl8: Cynllun Darllen Saesneg partneriaid bl10 ('Toe by Toe')
- Bl7-9: Cynllun Darllen Cymraeg a Saesneg M1 (Gwirfoddolwyr o'r Gymuned a bl12)
- Bl 7-9: Dyfal Donc Mathemateg (1:1)
- Bl7-9: Grwpiau llythrennedd a rhifedd dan ofal staff arbenigol
- Bl7-9: Cynllun Sillafu Saesneg (rhaglen gyfrifiadurol)

Mae arnom ddyled sylweddol am waith ac ymroddiad ein hoedolion sy'n gwirfoddoli, sy'n cynorthwyo disgyblion Blwyddyn 7 – 9 gyda'u darllen a'u rhifedd. 'Rydym yn ddiolchgar iawn

i'r oedolion sy'n gwirfoddoli am eu hymroddiad rhyfeddol – os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn gwirfoddoli, yna dylech gysylltu â Mrs Ruth Davies yn yr ysgol.

Mae'r Bloc Cefnogaeth Dysgu, dan arweinyddiaeth Mrs Catrin Pallot (Pennaeth Cynorthwyol, Lles a Chynhwysiant), yn hafan i ddisgyblion sydd angen lefel ddwys o gefnogaeth gyda'u hanghenion dysgu, a all amrywio o: anghenion dysgu cyffredinol, anghenion dysgu penodol, ac anghenion emosiynol, ymddygiad neu gymdeithasol, i anghenion meddygol, corfforol neu'n ymwneud â'r synhwyrau. Mae hefyd yn darparu lleoliad priodol ar gyfer ein Cynllun Darllen gydag Oedolion sy'n Gwirfoddoli.

Mrs Ruth Davies yw Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, ac mae'n parhau i weithio'n glòs gyda disgyblion sydd angen ymyriad arbenigol, mae yno 11 aelod o Staff Cynorthwyo Dysgu sydd wedi llwyr ymwymo i'r dasg; mae ganddynt gyfraniad ardderchog i'w wneud, nid yn unig i unigolion a grwpiau o ddisgyblion, ond i'r ysgol gyfan.

Mae'r staff i gyd yn gweithredu'r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r un ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Dawnus. Mae'r cynlluniau addysg unigol, a lle bo angen hynny, y cynlluniau ymddygiad unigol, yn ddogfennau byw a gaiff eu monitro'n rheolaidd. Mae athrawon ym mhob adran yn derbyn pob gwybodaeth angenrheidiol parthed ag unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y disgyblion, ac maent yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth wrth fynd ati i gynllunio gwaith y disgyblion.

Gwneir defnydd effeithiol o bob adnoddau sydd ar gael: staff arbenigol a phwnc, athrawon cefnogaeth, cynorthwy-wyr cefnogaeth dysgu, asiantaethau a phartneriaethau allanol, cynlluniau darllen, cynlluniau sillafu cartref ac ysgol a chyfraniad rhieni a chyfeillion er budd y disgyblion. O ganlyniad i hyn oll, gwelir fod disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac mae safonau'n codi.

BLAENORIAETHAU'R YSGOL DROS Y BLYNYDDOEDD SYDD I DDOD

Ar hyn o bryd, 'rydym yn gweithio ar ein cynllun cyfredol i wella'r ysgol, a fydd yn gweithredu hyd 2015. 'Rydym wedi ymrwymo i agenda o godi safonau ac o welliant parhaus. Bydd y penawdau a restrir isod yn ffurfio cnewyllyn y ddogfen honno. Os oes gennych chi sylwadau pellach i'w gwneud ynglŷn â'r blaenoriaethau hyn, neu eraill yr hoffech weld wedi eu cynnwys, mae croeso i chi fynegi eich barn i'r Pennaeth.

Blaenoriaethau ar gyfer Gwella'r Ysgol, 2014-15:

1. **Ymwreiddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ymhob adran drwy'r ysgol.**
2. **Sicrhau ardderchogrwydd yn ein addysgu a'n dysgu a'n asesu ar gyfer dysgu.**
3. **Miniogi systemau i ganolbwyntio ar leihau effaith amddifadedd ar gynnydd ein disgyblion.**
4. **Defnyddio data tracio cynnydd a chynlluniau ymyrraeth i godi safonau cyrhaeddiad a sicrhau cynnydd ein disgyblion gan gynnwys carfannau penodol o ddisgyblion (PYD / AAA / B/M / MAaD).**
5. **Addasu ein cwricwlwm ymhellach i gwrdd a gofynion lleol a chenedlaethol gan sicrhau bod yr adnoddau a'r staff ar gael i wireddu'r newidiadau.**
6. **Sicrhau cydraddoldeb i bob aelod o gymuned Plasmawr, cymuned aml-ddiwylliannol, oddefgar a'i hiaith yn greiddiol iddi.**

Atodiad A: Crynodeb o Gyraeddiadau CA3, 2015.
Atodiad B: Crynodeb o Berfformiad Ysgol Uwchradd (SSSP) 2014.
Atodiad C: Ffigurau ariannol terfynol ar gyfer 2014-15.
Atodiad Ch: Hawl rhieni i alw am gyfarfod.

Atodiad A: Crynodeb o Gyraeddiadau CA3, 2015.Crynodeb o ganlyniadau Asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol disgyblion yn yr ysgol (2015) ac yn genedlaethol (2014) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 fel canran o'r rhai oedd yn gymwys i'w hasesu.

		N	D	NCO 1,2,&3	1	2	3	4	5	6	7	>= 8	5+
Saesneg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	8	45	35	11	0	92
	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	2	10	37	34	14	1	86
Llafaredd	Ysgol	0	0	0	0	0	0	5	46	34	14	0	95
	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	2	10	36	34	15	1	86
Darllen	Ysgol	0	0	0	0	0	1	9	40	39	11	0	90
	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	3	11	37	33	13	1	84
Ysgrifennu	Ysgol	0	0	0	0	0	1	16	44	31	8	0	84
	Cenedlaethol	0	0	0	1	1	3	16	38	29	11	1	79

Cymraeg	Ysgol	0	0	0	0	0	1	10	47	28	14	0	89
	Cenedlaethol	0	-	*	*	0	2	8	37	38	14	1	90
Llafaredd	Ysgol	0	0	0	0	0	1	10	39	30	17	2	89
	Cenedlaethol	0	-	*	*	0	1	8	35	39	15	1	91
Darllen	Ysgol	0	0	0	0	0	1	14	45	29	11	0	86
	Cenedlaethol	0	-	*	*	0	2	10	36	37	15	1	88
Ysgrifennu	Ysgol	0	0	0	0	0	1	10	49	27	13	0	89
	Cenedlaethol	0	-	*	*	0	2	15	40	32	10	1	83

Mathemateg	Ysgol	0	0	0	0	0	1	8	31	33	22	5	92
	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	3	9	30	32	21	3	87

Gwyddoniaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	0	3	32	42	19	4	97
	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	1	7	36	37	17	1	90

Dangosydd Pwnc Craidd	Ysgol	89.16
	Cenedlaethol	81

		N	D	NCO 1,2&3	1	2	3	4	5	6	7	>= 8	5+
Cymraeg ail laith	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Iaith dramor fodern	Ysgol	0	0	0	0	0	0	10	22	58	10	0	90
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Dylunio a thechnoleg	Ysgol	0	0	0	0	0	1	2	49	42	6	0	97
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
TGCh	Ysgol	0	0	0	0	0	0	2	24	48	26	0	98
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Hanes	Ysgol	0	0	0	0	0	0	5	39	34	19	4	95
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Daearyddiaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	0	11	36	24	27	2	89
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Celf a Dylunio	Ysgol	0	0	0	0	0	0	5	52	36	7	0	95
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cerddoriaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	0	8	37	33	18	4	92
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Addysg Gorfforol	Ysgol	0	0	0	0	0	0	11	44	33	12	0	89
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-

Canran y bechgyn ar bob lefel

		N	D	NCO 1,2,&3	1	2	3	4	5	6	7	>= 8	5+
Saesneg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	8	49	34	8	0	92
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	81
Cymraeg	Ysgol	0	0	0	0	0	1	12	54	26	7	0	87
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	86
Mathemateg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	7	34	37	17	5	93
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	85
Ysgrifennu	Ysgol	0	0	0	0	0	0	3	34	46	17	0	97
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	88

Canran y merched ar bob lefel

		N	D	NCO 1,2,&3	1	2	3	4	5	6	7	>= 8	5+
Saesneg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	8	39	37	15	0	92
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	91
Cymraeg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	8	38	31	23	0	92
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	94
Mathemateg	Ysgol	0	0	0	0	0	1	8	28	28	28	6	90
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	89
Ysgrifennu	Ysgol	0	0	0	0	0	0	3	30	37	21	10	97
	Cenedlaethol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	93

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr **SSSP 2014**

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol (1) **Rhif ALI/Ysgol** **681 / 4072**

Disgyblion 15 oed

Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2014 : 163

Canran y disgyblion 15 oed a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach fesul disgybl wedi'i chapio (3)	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2013/14	100	98	83	67	62	362	548
Ardal ALI 2013/14	99	93	76	54	51	331	477
Cymru 2013/14	99	94	82	55	53	341	524
Ysgol 12/13/14	100	99	80	66	60	360	536
Ysgol 11/12/13	100	98	79	65	60	359	527

Nifer y bechgyn 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2014 : 76

Canran y bechgyn 15 oed a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach fesul disgybl wedi'i chapio (3)	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2013/14	100	99	82	67	59	355	525
Ardal ALI 2013/14	99	92	73	51	49	321	455
Cymru 2013/14	99	93	79	51	49	328	497
Ysgol 12/13/14	100	99	78	65	59	351	513
Ysgol 11/12/13	100	98	74	63	59	345	498

Nifer y merched 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2014 : 87

Canran y merched 15 oed a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy Lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (2)	Sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach fesul disgybl wedi'i chapio (3)	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2013/14	100	98	85	68	64	368	567
Ardal ALI 2013/14	99	94	79	57	54	342	499
Cymru 2013/14	99	96	86	60	57	355	553
Ysgol 12/13/14	100	98	82	66	60	368	555
Ysgol 11/12/13	100	98	83	68	61	370	550

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn http://www.daqw.org.uk/

(2) Mae manylion ynglŷn â pha feysydd llafur sydd ym mhob pwnc ar gael yn y nodiadau cyfarwyddyd.

(3) Cyfrifir y sgôr pwyntiau cyfartalog eang wedi'i gapio gan ddefnyddio'r 8 calnlyniad gorau.

(4) Cymhwyster Lefel Mynediad.

(5) Defnyddir ar gyfer holl dablau meincnodi prydau am ddim.

(6) Defnyddir ar gyfer holl dablau meincnodi prydau am ddim. Dangosir y dangosydd yma dim ond am ysgollion uwchradd prif ffrwd.

(7) Nodwch mai enwadur y dangosydd yma yw 'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg laith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

.. Data ddim ar gael.

THE CITY OF CARDIFF COUNCIL/GYNGOR DINAS CAERDYDD
SCHOOLS OUTTURN OF EXPENDITURE/CANLYNIAD GWARIANT YSGOLION 2014-2015

Governing Body/Corff Llywodraethu of: Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

	Governor Approved Budget/ Cyllideb a Gymeradwywyd gan y Llywodraethwyr		Actual Expenditure/ Gwanant Cyflawnedig	
	£	£	£	£
Staffing costs/Costau Staff				
Teaching Costs/Costau Addysgu	3,348,440		3 310,154	
Special Needs Teachers/Athrawon Anghenion Arbennig	58,203		58 105	
Teachers for statemented pupils/Athrawon ar gyfer disgyblion sy'n destun datganiad	0		0	
Short Term Supply/Llanw Byr Dymor	5,000		20,326	
Long Term Supply/Llanw Hir Dymor	66,369		64,248	
Special Needs Support Staff/Staff Cymorth Anghenion Arbennig	86,945		75,298	
Nursery Assts/ Teachers Aides / Adult Helpers/Cynorthwywyr Meithrinfa/ Cymhorthion Athrawon / Cynorthwywyr	357,363		348,214	
Foreign Language Assistants/Cynorthwywyr Ieithoedd Tramor	14,763		14,636	
Technicians/Technegwyr	83,410		66,758	
Mid Day Supervisors/Gorychwylwyr Canol Dydd	12,707		7,962	
Library Staff / Attend Officer/Staff Llyfrgell / Swyddog Presenoldeb	0		0	
Administrative Staff/Staff Gweinyddol	157,243		164,534	
Non teaching supply costs/Costau llanw staff heb fod yn athrawon	0		0	
Training Costs/Costau hyfforddi	7,800		11,386	
Other Staff Costs/Costau staff eraill	1,500		18,648	
Performance Management/Rheoli Perfformiad	0		0	
Total Staffing Costs/Cyfanswm Costau Staff		4,199,743		4,160,271
Premises Related Costs/Costau Eiddo				
Caretaking Staff/Staff Gofalwyr	84,245		85,128	
Domestic Staff/Staff Domestig	0		0	
Grounds Staff/Staff y Tir	7,200		6,370	
Cleaning Costs/Costau Glanhau	197,726		196,276	
Energy Costs/Costau Ynni	77,200		72,384	
Rates/Cyfraddau	118,242		118,242	
Repairs and Maintenance/Atgyweiriau a Chynhaliaeth	38,442		35,869	
Water/Dŵr	6,650		9,971	
Total Premises Related Costs/Cyfanswm Costau Eiddo		529,705		524,239
Transport Costs/Costau Cludiant				
Pupil Transport Costs/Costau Cludiant Disgyblion	0		0	
Staff Transport Costs/Costau Cludiant Staff	500		7	
Vehichle Costs/Costau Cerbydau	18,000		17,729	
Total Transport Costs/Cyfanswm Costau Cludiant		18,500		17,736
Supplies and Services/Cyflenwadau a Gwasanaethau				
Teaching Materials/Adnoddau Addysgu	142,500		150,665	
Equipment, Furniture, Materials & music tuition/Offer, Dodrefn, Deunyddiau a hyfforddiant cerddoriaeth	10,000		6,835	
Library Books & Materials/Llyfrau a Deunyddiau Llyfrgell	0		0	
Catering Costs/Costau Arlwyo	2,500		3,006	
Unallocated / Savings to be found/Arian heb ei ddosbarthu / Cynilion	-231,895		0	
Communications Equipment and Services/Offer a Gwasanaethau Cyfathrebu	30,000		30,283	
Consultants Fees/Ffioedd Ymgynghorwyr	0		0	
Examinations Fees/Ffioedd Arholiadau	98,000		96,462	
Games & School Activities/Gemau a Gweithgareddau Ysgol	12,000		10,610	
Clerk to Governing Body/Clerc y Corff Llywodraethu	2,520		1,050	
Other office costs/Costau swyddfa eraill	0		6,034	
Printing & Stationery/Argraffu a Deunydd Ysgrifennu	3,000		3,013	
Pupil Exclusions/Gwaharddiadau Disgyblion	0		0	
Subsistence and expenses/Cynhaliaeth a threuliau	0		20	
Total Supplies and Services/Cyfanswm Cyflenwadau a Gwasanaethau		68,625		307,977
Central Services/Gwasanaethau Canolog				
School Meals/Prydau Ysgol	13,080		13,080	
Service Level Agreements/Trefniadau Lefel Gwasanaeth	38,982		36,737	
Total for Central Services/Cyfanswm ar gyfer Gwasanaethau Canolog		52,062		49,817

Income/Incwm				
Additional Central Funding/Nawdd Canolog Ychwanegol	-227,163		-72,657	
Community Education/Addysg Cymunedol	0		0	
Donations/Rhoddion	-60,000		-53,228	
Lettings/Gosodiadau	-15,000		-34,130	
Other Income/Incwm arall	0		-250	
Grant Income/Incwm rhent	0		-156,850	
Sales/Gwerthiannau	0		0	
School Meals Recharge/Talu am Brydau Ysgol	0		0	
Training and Tuition Income/Incwm Hyfforddiant	-29,000		-28,713	
Total Income/Cyfanswm Incwm		-331,163		-345,828
Interest and Other/Llog ac Arall				
Interest on investments/Llog ar fuddsoddiadau	0		0	
School Investments/Buddsoddiadau Ysgol	0		0	
Withdrawl Investments/Buddsoddiadau Dileadau	0		0	
School Deficit/Gwariant Ysgol				
Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro	0		0	
Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro	0		0	
Interest/Llog	0		-2,075	
Total Interest and Other/Cyfanswm Llog ac arall		0		-2,075
Total Net Expenditure/Cyfanswm Gwariant Net		4,537,472		4,712,138
Less Uninvested Balance Brought Forward/Llai'r Balans na fuddsoddwyd a ddygwyd ymlaen		64,608		
Less earmarked Rates/Llai'r Cyfraddau a glustnodwyd		-118,242		-118,242
Contribution to / from balances/Cyfraniad i / o falansys				-110,058
Revised Net Expenditure/Gwariant Net Diwygiedig		4,483,838		4,483,839

Summary/Crynodeb	
Total resources available in 2014-2015 / Cyfanswm adnoddau ar gael yn 2014-2015	£
School balances Brought forward from 2013-2014/Balansau ysgol a ddygwyd ymlaen o 2013-2014	-64,608.27
School Loans Brought forward from 2013-2014/Benthyciadau Ysgol a Ddygwyd ymlaen o 2013-2014	0.00
Prior Year Adjustment/Cyn Addasiad Blwyddyn	0.00
Total delegated resources/Cyfanswm adnoddau dirprwyedig	4,602,080.00
Total/Cyfanswm	**4,537,471.73**
Actual Expenditure/Gwariant Cyflawnedig	4,712,137.84
Less change in investments/Llai'r newid mewn buddsoddiadau	0.00
Less Movements in Temporary Loan/Llai'r Symudiadau â Benthyciadau Dros Dro	0.00
Less variance in earmarked rates/Llai'r amrywiant â chyfraddau a glustnodir	0.00
Total balance carried forward to 2015-2016/Cyfanswm Balans a ddygwyd ymlaen i 2015-2016	**-174,666.11**
Statement of Balances Held/Datganiad Balansau	£
Uninvested Balance as at 31st March 2015/Balans na fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2015	-174,666.11
Invested Balance as at 31st March 2015/Balans a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2015	0.00
Outstanding Loans as at 31st March 2015/Benthyciadau dros ben ar 31 Mawrth 2015	0.00
Total Balances held as at 31st March 2015/Cyfanswm Balansau ar 31 Mawrth 2015	**-174,666.11**

for Corporate Director Resources
Prif Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau

Atodiad Ch: Eich hawl i ofyn am gyfarfod â chorff llywodraethu'r ysgol

Annwyl Riant
Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ran y corff llywodraethu i roi gwybod i chi am newidiadau i'r rheoliadau a threfniadau newydd o ran cael cyfarfod â chorff llywodraethu'r ysgol.
Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn dileu'r gofyniad i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol â rhieni, a chyflwynwyd trefniadau newydd yn lle hynny er mwyn galluogi rhieni i ofyn am hyd at 3 chyfarfod â chorff llywodraethu'r ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol ynghylch materion sy'n peri pryder iddynt. Dan y Ddeddf bydd angen bodloni pedwar amod os yw rhieni yn dymuno arfer eu hawliau i gynnal cyfarfod.
1. Bydd angen i Rieni lunio deiseb o blaid cynnal cyfarfod.
Bydd angen i rieni o leiaf 30 o ddisgyblion a gofrestrwyd yn yr ysgol lofnodi'r ddeiseb. Os deiseb ar bapur ydyw, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig yn ogystal â nodi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os deiseb electronig ydyw, y 'llofnod' sydd ei angen yw enw'r rhiant wedi'i deipio yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'llofnodi' y ddeiseb electronig.
2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol. Ni ellir galw'r cyfarfod i drafod materion megis cynnydd disgyblion unigol, nac i wneud cwyn yn erbyn aelod o staff neu gorff llywodraethu'r ysgol. Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno'r mater/materion i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid nodi'r wybodaeth hon yn glir ar frig y ddeiseb, gyda llofnodion y rhieni yn ymddangos islaw hynny.
3. Gellir cynnal hyd at dri chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae'r gyfraith yn galluogi rhieni i arfer eu hawliau i ofyn am hyd at dri chyfarfod â chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.
4. Rhaid bod o leiaf 25 diwrnod ysgol yn weddill yn y flwyddyn ysgol. Un o amodau'r gyfraith yw bod rhaid bod o leiaf 25 diwrnod ysgol yn weddill yn y flwyddyn ysgol pan gyflwynir y ddeiseb i'r ysgol er mwyn gallu cynnal y cyfarfod. Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol ar agor i ddisgyblion: Nid yw hyn yn cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau HMS.

Y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod â chorff llywodraethu'r ysgol yw:
Cadeirydd y Llywodraethwyr, d/o Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Penrebane Road, Fairwater, Cardiff CF5 3PZ.
Mae rhagor o wybodaeth ar sut y gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod â'r corff llywodraethu ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutoryguidance/?lang=cy

Yn gywir,

Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Plasmawr